# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Y Polisi Diogelu Data

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Ionawr 2023 |
| **Awdur(on):** | Y Swyddog Diogelu Data |
| **Ymgynghorai/Ymgynghoreion:** | Y Bwrdd Rheoli Corfforaethol; Yr Uwch-berchennog Risgiau Gwybodaeth; Y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth, Y Swyddog Diogelu Data |
| **Cymeradwywyd gan:** | Y Cabinet |
| **Amlder Adolygu:** | Bob dwy flynedd |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** | Ionawr 2025 |

# Y Polisi Diogelu Data

## 1. Amcan y polisi

1.1. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Ddata Personol ynghylch ei ddinasyddion, ei gyflogeion, ei gyflenwyr, ei ymgeiswyr am swyddi ac unigolion eraill at amryw o ddibenion busnes, gan gynnwys ei dasg gyhoeddus fel awdurdod lleol, ei statws fel cyflogwr lleol o bwys ac fel comisiynydd gwasanaethau.

1.2 Bydd cydymffurfio â’r polisi yn helpu'r Cyngor i fodloni gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) Ewropeaidd a'r Ddeddf Diogelu Data sy’n cyd-fynd ag ef. Mae methu â gweithredu'r polisi hwn mewn modd effeithiol yn creu risgiau i’r Cyngor, sef peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth, cosbau ariannol sylweddol, trallod neu niwed i unigolion y mae eu data gennym, niwed i enw da'r effeithiol a dibynadwy.

## 2. Rhychwant a diffiniadau

2.1 Mae’r polisi hwn yn gymwys i’r holl staff ac Aelodau Etholedig sy’n cael gweld cofnodion a gwybodaeth y Cyngor mewn unrhyw fformat o gwbl wrth eu gwaith.

2.2 Diffinnir ‘Data Personol’ fel unrhyw wybodaeth sy’n ymwneud â pherson naturiol a adnabuwyd neu y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu anuniongyrchol, e.e. enw, cyfeiriad, dyddiad geni, data am leoliad, dynodydd ar-lein.

Mae categorïau arbennig o Ddata Personol yn dod o dan amddiffyniadau ychwanegol, ac mae’r rhain yn cynnwys:

- Honiadau, achosion, canlyniadau a dedfrydau troseddol
- Iechyd neu anhwylder corfforol neu feddyliol
- Gwleidyddiaeth
- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Crefydd neu gredoau eraill o natur debyg
- Bywyd rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Aelodaeth undeb llafur
- Geneteg
- Biometreg (o’i defnyddio at ddibenion adnabod)

2.3 Mae’r ‘Rheolwr Data’ yn berson neu sefydliad sy’n penderfynu at ba ddibenion y bydd unrhyw ddata personol yn cael ei brosesu neu i gael ei brosesu, ac ym mha fodd. At ddibenion y polisi hwn, y Cyngor yw’r Rheolwr Data cofrestredig.

2.4 'Prosesydd Data' yw unrhyw drydydd parti sy'n prosesu data ar ran y Rheolwr Data.

2.5 Mae ‘Testun Data’ yn unigolyn byw sy’n destun y Data Personol.

2.6 Ystyr 'Prosesu' yw unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol drwy gydol cylch oes yr wybodaeth, o gasglu a chreu wybodaeth bersonol, i’w defnyddio trefnu ei bod ar gael i eraill yn ôl yr angen, ei storio, a’i gwaredu pan na fydd ei hangen mwyach

2.7 Mae 'Hysbysiad Preifatrwydd' yn amlinellu gwybodaeth i destunau data am sut a pham mae eu Data Personol yn cael ei brosesu (gan gynnwys pwy yw’r Swyddog Diogelu Data, sut a pham y bydd y Cyngor yn defnyddio, yn prosesu, yn datgelu, yn diogelu ac yn cadw’r Data Personol hwnnw). Cyhoeddir yr hysbysiadau hyn ar wefan y Cyngor a’u rhoi i unigolion pan fydd Data Personol yn cael ei gasglu.

2.8 Mae’r polisi hwn yn gymwys i’r holl gyflogeion, Aelodau Etholedig, ac unigolion/sefydliadau eraill sy’n gweithredu ar ran y Cyngor ac sy’n cael gweld Data Personol y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano. Mae gweithdrefnau manwl yn cyd-fynd â'r polisi hwn i gyfarwyddo gwaith i Brosesu Data Personol mewn modd sy’n cydymffurfio â’r Egwyddorion Diogelu Data

## 3. Egwyddorion diogelu data

3.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl waith prosesu Data Personol y mae’n ei wneud yn cydymffurfio â’r chwe egwyddor a ganlyn:

- **Rhaid i Ddata Personol gael ei brosesu’n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw**

Dim ond pan fo gan y Cyngor sail gyfreithlon dros gyflawni’r gweithgaredd y caniateir prosesu Data Personol. Mae’r GDPR yn pennu chwe sail gyfreithlon dros Brosesu fel yr amlinellir yn adran 4.

Mae Hysbysiadau Preifatrwydd ar waith ar gyfer gwasanaethau sy'n prosesu Data Personol gan gynnwys categorïau arbennig o Ddata Personol. Mae'r hysbysiadau hyn yn gwneud yn glir pa ddata sy’n cael ei brosesu ac yn nodi’r sail gyfreithlon dros brosesu’r Data Personol hwn. Mae’r rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn cael eu rhoi i unigolion pan fydd Data Personol yn cael ei gasglu.

- **At ddibenion penodedig, pendant a dilys yn unig y caniateir casglu Data Personol**

Wrth gasglu Data Personol bydd y Cyngor yn sicrhau bod Testunau Data yn cael Hysbysiadau Preifatrwydd priodol i roi gwybod sut y bydd eu data’n cael ei ddefnyddio ac i nodi’r sail gyfreithiol dros y Prosesu.

- **Rhaid i Ddata Personol fod yn ddigonol, yn berthnasol a heb fod yn ormodol**

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y data a brosesir yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gymesur at y diben y cafodd ei gasglu ar ei gyfer.

- **Rhaid i Ddata Personol fod yn fanwl-gywir a chael ei gadw'n gyfoes pan fo angen gwneud hynny.**

Mae gan unigolion hawl i ofyn i'r Cyngor gywiro Data Personol sy'n ymwneud â nhw ac y maen nhw o'r farn ei fod yn anghywir a bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus gan y Swyddog Diogelu Data (gweler adrannau 7 ac 8 am ragor o wybodaeth). Os nad yw'r Cyngor yn cytuno bod y Data Personol sy'n cael ei gadw yn anghywir yna bydd cofnod yn cael ei gadw fod yna anghytundeb ynglŷn ag ef.

- **Rhaid peidio â chadw Data Personol yn hirach nag y mae ei angen**

Mae gan y Cyngor Bolisi Cadw Data sy'n cynnwys cyfnodau cadw safonol lle bo modd, yn unol â rhwymedigeathau ynglŷn â dogfennau. Mae'r Cyngor yn ystyried yn ofalus pa mor hir y mae'n cadw Data Personol

- **Rhaid i Ddata Personol gael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol**

Rhaid i'r Cyngor gadw Data Personol yn ddiogel rhag ei golli neu ei gamddefnyddio ac mae ganddo bolisïau a gweithdrefnau clir ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r staff gadw Data Personol yn ddiogel. Pan fo'r Cyngor yn defnyddio Prosesyddion Data ar ei ran, mae angen defnyddio trefniadau diogelwch ychwanegol mewn Cytundebau Prosesu Data gyda'r sefydliadau hynny i ddiogelu Data Personol. Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant ac yn cyfathrebu â'r staff i roi pwyslais ar ddiogelwch data.

3.2 Mae yna egwyddor gyffredinol arall, sef atebolrwydd, sy'n golygu bod rhaid i'r Cyngor nid yn unig gydymffurfio â chwe egwyddor ond cael ei weld hefyd yn cydymffurfio â nhw o ran ei wyneb cyhoeddus a gallu dangos ei fod yn cydymffurfio os caiff ei arolygu gan gyrff rheoleiddio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adran 8.

## 4. Amodau ynglŷn â Phrosesu

4.1 Er mwyn iddi fod yn gyfreithlon ac yn briodol i'r Cyngor brosesu Data Personol, rhaid bodloni o leiaf un o'r amodau sydd wedi'u hamlinellu isod. Does dim un sail sy'n 'well' neu bwysicach na'r lleill - bydd y sail sy'n fwyaf priodol yn dibynnu ar y diben ac ar y berthynas â'r unigolyn:

- bod y Testun Data wedi rhoi ei gydsyniad
- bod y proseau'n angenrheidiol oherwydd contract
- ei fod yn angenrheidiol oherwydd rhwymedigaeth gyfreithiol

- bod buddiannau sy’n allweddol i fywyd y Testun Data neu berson arall yn cael
  eu diogelu
- ei fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg sy’n cael ei chyflawni er budd y
  cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y Rheolwr Data
- ei fod yn angenrheidiol at ddibenion bussiannau dilys sy’n cael eu hyrwyddo gan y Rheolwr Data neu drydydd parti (*ni chaniateir i’r amod hwn gael ei ddefnyddio gan awdurdodau cyhoeddus wrth gyflawni eu tasgau cyhoeddus. Dylid nodi bod y Cyngor wedi’i ddosbarthu’n awdurdod cyhoeddus o dan y GDPR)*

4.2 Ceir amddiffyniad cyfreithiol cryfach ar gyfer gwybodaeth fwy sensitif (sy’n cael ei hadnabod fel "Data Categori Arbennig"), megis cefndir ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, iechyd, credoau crefyddol, cofnodion troseddol. Dim ond os bydd un o’r canlynol yn gymwys yn ychwanegol at y rhai uchod y bydd gwaith i brosesu Data Categori Arbennig yn cael ei wneud gan y Cyngor:

- Cydsyniad pendant y Testun Data
- ei fod yn angenrheidiol ar gyfer rhwymedigaethau o dan y gyfraith ar gyflogaeth, nawdd cymdeithasol neu amddiffyn cymdeithasol neu o dan gyd-gytundeb
- ei fod yn diogelu buddiannau sy’n allweddol i fywyd y Testun Data neu berson arall pan nad yw’r Testun Data yn gallu rhoi cydsyniad
- bod y prosesu’n cael ei wneud ar ran corff nid-er-elw ac ar yr amod na ddatgelir data i drydydd parti heb gydsyniad
- bod y Data Personol wedi’i wneud yn gyhoeddus gan y Testun Data
- ei fod yn angenrheidiol er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithol neu pan fo’r llysoedd yn gweithredu yn eu swyddogaeth farnwrol
- ei fod yn angenrheidiol am resymau buddiant cyhoeddus sylweddol ar sail cyfraith yr Undeb neu’r Aelod-wladwriaeth
- ei fod yn angenrheidiol am resymau buddiant cyhoeddus ym maes iechyd y cyhoedd
- ei fod yn angenrheidiol er mwyn ateb dibenion sydd er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol a hanesyddol neu ddibenion ystadegol
- ei fod yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol

## 5. Amodau atodol ynglyn â phrosesu

5.1 Mae Adran 10 o’r Ddeddf Diogelu Data ac Atodlen 1 iddi yn nodi’r eithriadau rhag y gwaharddiadau yn y GDPR sy'n ymwneud â phrosesu Data Categori Arbennig a data euogfarnau troseddol

5.2 Mae'r Cyngor hefyd yn prosesu Data Personol Categori Arbennig o dan yr amodau canlynol yn Atodlen 1, Rhan 2 o’r Ddeddf Diogelu Data, ar sail buddiant cyhoeddus sylweddol:

- Dibenion statudol a dibenion y llywodraeth
- Cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal
- Atal neu ddatrys gweithredoedd anghyfreithlon

- Atal twyll
- Gwasanaethau cwnsela, cynghori neu gefnogi
- Diogel plant ac unigolion sy’n wynebu risg
- Dibenion yswiriant
- Pensiynau galwedigaethol
- Cynrychiolwyr etholedig yn ymateb i geisiadau
- Datgelu i gynrychiolwyr etholedig

5.3 Ar y cyd â’r amodau eraill yn Atodlen 1, Rhan 3 o’r Ddeddf, mae’r Cyngor hefyd yn ymestyn yr amod ynglŷn â dibenion statudol a dibenion Llywodraeth yn Rhan 2 i gynnwys prosesu data ynglŷn ag euogfarnau troseddol. Er mwyn prosesu’r data hwn mae’n rhaid i'r Cyngor fodloni'r prawf budd cyhoeddus sylweddol. Bernir o dan yr holl amgylchiadau fod y budd cyhoeddus mewn prosesu data ynglŷn ag euogfarnau troseddol yn sylweddol drech na’r budd cyhoeddus mewn diogelu preifatrwydd y Testun Data. Bydd hyn yn wir pan fo’r gwaith prosesu’n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn amddiffyn y cyhoedd, plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

## 6. Hawliau Unigolyn

6.1 Bydd y Cyngor yn dangos atebolrwydd wrth gadw at hawliau unigolion a nodir yn y gyfraith ar ddiogelu data, gan gynnwys eu hawl:

- i gael eu hysbysu am wybodaeth sy’n cael ei dal gan y Cyngor
- i weld ei Ddata Personol sy’n cael ei ddan gan y Cyngor drwy gyfrwng cais Testun am Weld Data (yn unol â’r diffiniad o “Subject Access Request” yn y Ddeddf)
- i gywiro data anghywir neu ddata anghyflawn
- i ddileu ei ddata Personol o dan amgylchiadau penodol
- tynnu caniatâd i brosesu’n ôl o dan amgylchiadau penodol
- i gludadwyedd data o dan amgylchiadau penodol
- i atal gwaith prosesu
- i wrthwyndebu penderfyniadau sydd wedi’u seilio ar ddulliau penderfynu a phroffilio awtomataidd yn unig
- i wneud cwyn i’e awdurdod goruchwylio
- i gael ei hysbysu am drosedd Diogelu Data sy’n debygol o beri niwed neu drallod i’r unigolyn new i unrhyw un arall
- i dynnu ei gydsyniad i waith prosesu yn ôl unrhyw bryd (dim ond os cydsyniad yw’r sail gyfreithlon dros y gwaith prosesu)

6.2 Dylai pob un o’r ceisiadau uchod (p’un a gân nhw eu gwneud ar lafar ynteu menw ysgrifen) gael eu huwchgyfeirio at y Swyddog Diogelu Data cyn gynted ag y bo mod gan fod yna derfyn amser ar gyfer ymateb i’r ceisiadau hyn.

## 7. Cwynion a throseddau diogelu data

7.1 Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i osgoi troseddau Data Personol, ac yn arbennig colli Data Personol. Pan fydd trosedd yn digwydd mae'n bwysig bod y Cyngor yn ymateb yn briodol yn unol â'r deddfau diogelu data. Mae'n ofynnol i'r Cyngor roi gwybod r ICO am droseddau Data Personol perthnasol a fydd yn arwain at risg i hawliau a rhyddidau unigolion pan gaiff wybod am y digwyddiad ac i Testunau Data unigol o dan amgylchiadau penodol.

7.2 Dylai unrhyw unigolyn sydd am roi gwybod ·am bryderon sy'n ymwneud â diogelu

Charlotte Branford, Y Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data
Charlotte.branford@bridgend.gov.uk
Ffôn: 01656 643565

7.3 Bydd y Cyngor yn gweithredu rheolau a gweithdrefnau i sicrhau ei fod yn gallu ymateb i droseddau data perthnasol o fewn yr amserlen o 72 awr a ragnodir gan y ddeddfwriaeth. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn gwneud asesiad i benderfynu a ddylid hysbysu'r Testun Data am y drosedd a/neu a ddylid hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth.

7.4 Gall methu â chydymffurfio â'r gyfraith ar ddiogelu data arwain at y canlynol:

- Canlyniadau difrifol i unigolion y mae'r data n ymwneud â nhw, gan gynnwys embaras, trallod, colled ariannol
- Niwed anadferadwy i enw da'r Cyngor a cholli hyder yng ngallu'r Cyngor i reoli gwybodaeth yn briodol
- Cosbau ariannol a hawliadau iawndal
- Camau gorfodi gan y Comisiynydd Gwybodaeth
- Atebolrwydd person dros rai troseddau a thros dorri'r Cod Ymddygiad i Gyflogaion neu'r Cod Ymddygiad i Aelodau Etholedig.

7.5 Mae Cod Ymarfer wedi'i ddatblgu ynglŷn â throseddu data i helpu'r Cyngor i ymateb yn effeithiol i droseddau Data Personol.

## 8. Atebolrwydd a monitro

8.1 Mae gan y Cyngor Swyddog Diogelu Data i oruchwylio rheolaeth Data Personol ledled y Cyngor. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn gweithio gyda'r Uwch-berchennog Risgiau Gwybodaeth ac yn sicrhau y cydymffurfir â'r Egwyddorion Diogelu Data. Caiff y swyddi hyn eu cefnogi gan Fwrdd Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor, sy'n cynnwys rhwydwaith o gynrychiolwyr o bob gwasanaeth o fewn y Cyngor. Nid yw bodolaeth y Bwrdd hwn mewn unrhyw ffordd yn negyddu neu'n lleihau atebolrwydd a chyfrifoldeb unigol yr holl staff a'r holl Aelodau Etholedig dros ddiogelu'r Data Personol y maen nhw'n ei weld.

8.2 Bydd Asesiadau Effaith Diogelu Data (sef dull ar gyfer adnabod ac asesu risgiau i breifatrwydd drwy gydol oes datblygu rhaglen neu system Personol) yn cael eu gwneud yn y dyddiau cynnar pryd bynnag y cynigir defnyddio Data

Personol ac yn enwedig yn achos prosiectau newydd neu wrth ddefnyddio technolegau newydd. Wrth benderfynu a oes angen asesiad, bydd y swyddogion naill ai yn penderfynu hyn eu hunain, gan ddilyn dulliau sgrinio mewnol neu gallant ymgynghori â Swyddog Diogelu Data. Efallai y cân nhw gyfarwyddyd gan y Swyddog Diogelu Data i gynnal yr asesiad.

8.3 Fel Rheolwr Data mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cofnod o weithgareddau prosesu a hwnnw'n ymdrin â'r holl waith i brosesu Data Personol a wneir gan y Cyngor. Mae cofnod o'r gweithgareddau prosesu Data Personol yn cael ei gadw gan bob Maes Gwasanaeth a'r Swyddog Diogelu Data, ac mae'r modd y caiff yr wybodaeth ei rheoli yn cael ei werthuso'n rheolaidd gan ddefnyddio Asesiadau Effaith Diogelu Data lle bo'n briodol.

8.4 Mae hysbysiadau preifatrwydd clir ac amserol yn cael eu cyfleu, a'r rheiny'n galluogi'r Testun Data i ddeall sut mae ei Ddata Personol yn cael ei ddefnyddio.

8.5 Mae Data Personol yn cael ei rannu drwy gydymffurfio â'r protocolau a gymeradwywd, gan gynnwyd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru Cytundebau Datgelu Data a Chytundebau Prosesu Data.

8.6 Gwaredir Data Personol yn unol â Pholisi Cadw Data'r Cyngor yn unig.

## 9. Hyfforddi a Chyfrifoldebau'r Staff a'r Aelodau Etholedig

9.1 Dylai'r holl staff sy'n gyfrifol am gasglu, gweld neu brosesu Data Personol gydymffurfio â darpariaethau'r deddfau diogelu data perthnasol a hynny yn â'r unol Egwyddorion Diogelu Data.

9.2 Mae'r holl Aelodau Etholedig yn gyfrifol ac yn atebol am ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'i sefydlu a chadw eu hyfforddiant a dealltwriaeth yn gyfredol o ran diogelu data.

9.3 Mae'r Cyngor wedi datblygu polisi hyfforddiant ar-lein ynghylch diogelu data. Mae'n orfodol i'r Aelodau Etholedig ac i'r holl staff sy'n prosesu Data Personol.

## 10. Statws y polisi hwn / polisïau ac adnoddau perthynol

10.1 Nid yw'r polisi hwn yn rhan o gontract cyflogaeth y staff ond un o amodau cyflogaeth y staff yw eu bod yn cadw at reolau a pholisïau'r Cyngor.

10.2 Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau a dogfennau TGCh, y Cod Ymarfer ar Dorri Rheoliadau Diogelu Data a'r Polisi Cadw Data sydd ar waith yn fewnol.

10.3 Canllawiau ac adnoddau ychwanegol:

- I'r cyhoedd - gweler tudalen gwe'r Cyngor ynghylch diogelu data
- I gyflogeion - y tudalennau diogelu data ar y fewnrwyd

10.4 Mae'r polisi hwn wedi'i lywio gan ganllawiau'r ICO ar roi'r GDPR ar waith, sydd i'w gweld ar eu gwefan.

10.5 Bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi hwn yn barhaus, gan ei ddiwygio yn ôl yr angen a'i adolygu'n ffurfiol bob dair blynedd o leiaf.

## 11. Y Comisiynydd Gwybodaeth

11.1 Y Comisiynydd Gwybodaeth yw'r awdurdod goruchwylio yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am fonitro sut mae'r GDPR a Ddeddf Diogelu Data yn cael eu defnyddio er mwyn amddiffyn hawliau a rhyddidau sylfaenol personau naturiol o safbwynt prosesu. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn darparu gwybodaeth a chyngor, ac mae gan eu gwefan ffynonellau defnyddiol ar gyfer dogfennau am yr arferion gorau a chanllawiau i ymarferwyr: www.ico.org.uk.

11.2 Mae'r ICO yn gallu cynnal asesiad neu archwiliad o sut mae'r Cyngor yn prosesu Data Personol er mwyn sefydlu a yw'r gwaith prosesu hwnnw yn dilyn arferion da.